**Pen Calfaria**

I

I Galfaria trof fy wyneb,
Ar Galfaria, gwyn fy myd,
Y mae gras ac anfarwoldeb
Yn diferu drosto i gyd;
Pen Calfaria,
Yno, f'enaid, gwna dy nyth.

Yno clywaf yn yr awel
Salmau'r nef yn dod i lawr,
Ddysgwyd wrth afonydd Babel
Gynt yng ngwlad y cystudd mawr:
Pen Calfaria
Gydia'r ddaear wrth y nef.

Dacw enaid lleidr aflan
Wedi crino yng ngwres y fflam,
O'i gadwynau'n dianc allan,
Ac i'r nef yn rhoddi llam;
Pen Calfaria
Fydd ei gân dragwyddol mwy.

II

Pan yn nyffryn cysgod angau,
Pan yn griddfan dan fy mhwn,
Mae Calfaria'n ddigymylau,
Dwyfol ddydd fedyddia hwn;
Pen Calfaria
Weddnewidiodd croes fy Nuw.

Bu ei ben dan gwmwl unwaith –
Cwmwl o ddigofaint llawn,
Ond am byth diflannodd ymaith
O flaen haul digonol Iawn;
Pen Calfaria,
Ni ddaw nos i'w gopa mwy.
Dringo'r mynydd ar fy ngliniau
Geisiaf, heb ddiffygio byth,
Tremiaf trwy gawodydd dagrau
Ar y Groes yn union syth,
Pen Calfaria
Dry fy nagrau'n ffrwd o hedd.

***Evan Rees (Dyfed)***